# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Medi 2019

Amser: 09.00 - 11.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5771

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Elin Jones AC, Y Llywydd, Llywydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r tystion i'r cyfarfod.

## 2 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth bellach

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol; Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr – Cyfansoddiad a Chyfiawnder; a Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr – Rheolaethau Ariannol, am Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

## 3 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth bellach

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Elin Jones AC, y Llywydd; Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a Nia Morgan, y Cyfarwyddwr Cyllid, am Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cymeradwywyd y cynnig.

## 5 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Eithriodd Mark Reckless ei hun ar gyfer yr eitem hon, ac ni chyfrannodd at adroddiad y Pwyllgor ar graffu ymhellach ar oblygiadau ariannol y Bil.

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 7 Papur cwmpasu: Effaith amrywiadau mewn trethi Cenedlaethol ac Is-genedlaethol

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytunodd ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad.

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Y dull o gynnal gwaith craffu

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull diwygiedig o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

## 9 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at y Prif Weinidog - parodrwydd ar gyfer Brexit a chyllid yr UE - 20 Medi 2019

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y llythyr.